# Arolwg Masnach Cymru 2021
# Atodiad cyfathrebiaeth

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cynnwys


Llythyr gwahoddiad: wedi'u cwpla'n cynt ........ 2

Llythyr gwahoddiad: ni wnaeth cwpla'n cynt ........ 3

Canllaw cam wrth gam … ........ 4

Llythyr atgoffa: wedi'u cwpla'n cynt ........ 7

Llythyr atgoffa: ni wnaeth cwpla'n cynt ........ 8

Llythyr gwahoddiad: wedi'u cwpla'n cynt

IFF Research

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

[Contact]
[Company]
[Company2]
[Address line 1]
[Address line 2]
[Address line 3]
[Postcode]
[Date]

**Helpwch i wneud Cymru'n lle gwell i wneud busnes**

Annwyl [Contact2],

Diolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn Arolwg Masnach Cymru y llynedd. O ganlyniad i hynny, mae gennym ystadegau manylach erbyn hyn am fasnach yng Nghymru a gweddill y DU, yn ogystal â dealltwriaeth ddyfnach o fasnach ryngwladol Cymru. Mae'r arolwg yn ei bedwaredd flwyddyn erbyn hyn, felly rydym yn gweithio i ddatblygu'r darlun diweddaraf.

**Mae eich busnes wedi cael ei ddewis i gymryd rhan yn Arolwg Masnach Cymru eleni.** Dylai'r arolwg gymryd llai na 25 munud i'w gwblhau. Mae'n gofyn yr un cwestiynau â'r llynedd ond mae wedi ei ddiweddaru i ofyn am ddata 2021.

## Pam ddylwn i gymryd rhan?

[IF NOT LARGE BUSINESS: Trwy gymryd yr amser i gwblhau'r arolygon hyn, rydych yn darparu gwybodaeth bwysig a threiddgar am fasnach nad yw ar gael fel arall. [IF LARGE BUSINESS: Am eich bod yn fusnes mawr, mae eich cyfraniad yn hanfodol er mwyn i ni allu deall yn fanwl beth yw graddfa masnach Cymru, gan ddarparu gwybodaeth bwysig a threiddgar am fasnach nad yw ar gael fel arall.]

## Sut all fy musnes i gymryd rhan?

Gallwch agor yr arolwg drwy fynd i'r wefan hon a nodi'r cod mynediad sy'n unigryw i'ch busnes chi:

**Gwefan:**
**Llyw.cymru/ArolwgMasnach**

**Mae gennych tan 18 Tachwedd 2022 i gwblhau'r arolwg.**

Mae'n debyg mai'r person gorau i gwblhau'r arolwg hwn yw'r [IF NOT LARGE BUSINESS: rheolwr-gyfarwyddwr]. rheolwr/cyfarwyddwr cyllid, rheolwr cyllid neu'r adran cyfrifon rheolwyr] yn eich sefydliad; os nad chi yw hwn/hon, anfonwch yr arolwg ymlaen at yr unigolyn mwyaf priodol os gwelwch yn dda

Mae IFF Research yn cynnal yr arolwg hwn ar ein rhan. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â sut i lenwi'r arolwg:

- Ebostiwch: TSW@IFFResearch.com, neu
- Ffoniwch: 0300 0259 000.

Bydd data a chanfyddiadau allweddol o'r arolwg wedi eu cyhoeddi yn y fan yma yn 2023: https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil. Gallwch weld data o flynyddoedd blaenorol yr arolwg yma: https://llyw.cymru/arolwg-masnach-cymru

Yn gywir iawn,

Jonathan Price

Jonathan Price, Prif Economegydd
Llywodraeth Cymru

**Mae IFF Research yn gwarantu y bydd yr holl wybodaeth a ddarparwch yn yr arolwg hwn yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol**. Bydd yr arolwg yn cael ei weinyddu yn unol ag egwyddorion GDPR, Cod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil Marchnad, a phrotocolau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth. Bydd pob enw a'r holl fanylion cysylltu'n cael eu dileu o gofnodion IFF 3 mis ar ôl cwblhau'r arolwg hwn. Mae gennych hawl i gael copi o'ch data, newid eich data neu dynnu allan o'r gwaith ymchwil unrhyw bryd. Os hoffech wneud hynny, ewch i: iffresearch.com/gdpr. Gallwch hefyd ddarllen yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer yr arolwg hwn ar y wefan yn y blwch gwyrdd uchod.

Llythyr gwahoddiad: ni wnaeth cwpla'n cynt

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

[Contact]
[Company]
[Company2]
[Address line 1]
[Address line 2]
[Address line 3]
[Postcode]
[Date]

**Helpwch i wneud Cymru'n lle gwell i wneud busnes**

Annwyl [Contact2],

**Mae eich busnes wedi cael ei ddewis i gymryd rhan yn Arolwg Masnach Cymru eleni.**

## Pam ddylwn i gymryd rhan?

- Dylai'r arolwg gymryd llai na 25 munud i'w gwblhau.

- [IF NOT LARGE BUSINESS: Byddwch yn helpu i ddarparu gwybodaeth bwysig a threiddgar am fasnach nad yw ar gael fel arall. [IF LARGE BUSINESS: Am eich bod yn fusnes mawr, mae eich cyfraniad yn hanfodol er mwyn i ni allu deall yn fanwl beth yw graddfa masnach Cymru, gan ddarparu gwybodaeth bwysig a threiddgar am fasnach nad yw ar gael fel arall.]

- Bydd y data a ddarparwch yn siapio polisïau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ac yn helpu i sicrhau bod busnesau Cymru'n gallu ffynnu a thyfu.

- Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn hynod o heriol. Po fwyaf o fusnesau sy'n cymryd rhan yn yr arolwg, y gorau y gallwn asesu effeithiau tymor hir COVID-19 a'r Ymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd.

Bydd data a chanfyddiadau allweddol o'r arolwg wedi eu cyhoeddi yn y fan yma yn 2023: https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil. Gallwch weld data o flynyddoedd blaenorol yr arolwg yma: https://llyw.cymru/arolwg-masnach-cymru

## Sut all fy musnes i gymryd rhan?

Mae'n debyg mai'r person gorau i gwblhau'r arolwg hwn yw'r [IF NOT LARGE BUSINESS: rheolwr-gyfarwyddwr]. rheolwr/cyfarwyddwr cyllid, rheolwr cyllid neu'r adran cyfrifon rheolwyr] yn eich sefydliad; os nad chi yw hwn/hon, anfonwch yr arolwg ymlaen at yr unigolyn mwyaf priodol os gwelwch yn dda.

Gallwch agor yr arolwg drwy fynd i'r wefan hon a nodi'r cod mynediad sy'n unigryw i'ch busnes chi:

**Gwefan: Llyw.cymru/ArolwgMasnach**

**Cod mynediad: [ID]**

**Mae gennych tan 18 Tachwedd 2022 i gwblhau'r arolwg.**

Mae IFF Research yn cynnal yr arolwg hwn ar ein rhan. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â sut i lenwi'r arolwg:

- Ebostiwch: TSW@IFFResearch.com, neu
- Ffoniwch: 0300 0259 000.

Yn gywir iawn



Jonathan Price, Prif Economegydd
Llywodraeth Cymru

**Mae IFF Research yn gwarantu y bydd unrhyw wybodaeth a ddarparwch yn yr arolwg hwn yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol**. Bydd yr arolwg yn cael ei weinyddu yn unol ag egwyddorion GDPR, Cod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil Marchnad, a phrotocolau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth. Bydd pob enw a'r holl fanylion cysylltu'n cael eu dileu o gofnodion IFF 3 mis ar ôl cwblhau'r arolwg hwn. Mae gennych hawl i gael copi o'ch data, newid eich data neu dynnu allan o'r gwaith ymchwil unrhyw bryd. Os hoffech wneud hynny, ewch i: iffresearch.com/gdpr. Gallwch hefyd ddarllen yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer yr arolwg hwn ar y wefan yn y blwch gwyrdd uchod.

## Canllaw cam wrth gam …

**Cam 1 – Beth sydd ei angen arnaf i gychwyn?**
Eich llythyr, mae'n cynnwys:

**Gwefan:** [www.Llyw.cymru/ArolwgMasnach](http://www.Llyw.cymru/ArolwgMasnach)
**Peidiwch â defnyddio chwilotwr**
**Cod mynediad:** [ID]

**Cam 2**
Teipiwch y wefan ym mar cyfeiriad eich porwr gwe, fel y gwelwch yma …

[www.Llyw.cymru/ArolwgMasnach](http://www.Llyw.cymru/ArolwgMasnach)

**Cam 3**
Dylech weld tudalen sydd â'r teitl '**Croeso i Arolwg Masnach Cymru**'

**Cam 4**
Yn y blwch a welwch, nodwch y cod mynediad sydd yn eich llythyr gwahodd. Rydych yn barod i gwblhau Arolwg Masnach Cymru.

### Am beth fydd y cwestiynau …

**Cefndir eich busnes**
Gan gynnwys: lleoliad eich pencadlys, nifer y gweithwyr, ac a gafwyd unrhyw werthiannau a phryniannau yn 2021

Gwerth y **gwerthiannau** a'r **allforion** o…

Gwerth y **pryniannau** a'r **mewnforion** o…

**Nwyddau, Gwasanaethau, 2021**

Gwerth **gwerthiannau nwyddau** i…

Gwerth **gwerthiannau gwasanaethau** i…

Gwerth **pryniannau nwyddau** o…

Gwerth **pryniannau gwasanaethau** o…

**….Gymru, Lloegr, Yr Alban, Gogledd Iwerddon, gweddill yr UE a gweddill y Byd**

Y 5 cynnyrch a **werthwyd fwyaf yn y DU** yn 2021

Y **5 gwlad** a **allforiodd fwyaf i brynwyr nad ydynt o'r DU** yn 2021

Y 5 gwlad a **fewnforiodd** fwyaf i gyflenwyr nad ydynt yn y DU yn 2021

Unrhyw **wybodaeth arall** yr hoffech ei rhoi am eich gwerthiannau neu bryniannau yn 2021

## Cwestiynau Cyffredin

# Arolwg Masnach Cymru

**1. Beth yw Arolwg Masnach Cymru?**

Mae Arolwg Masnach Cymru'n arolwg sy'n cael ei gynnal gan IFF Research ar ran Llywodraeth Cymru ac mae yn ei bumed flwyddyn erbyn hyn ac yn casglu data 2022. Ei nod yw gwella'r ddealltwriaeth o'r llifoedd masnach i mewn ac allan o fusnesau sydd wedi eu lleoli yng Nghymru, yn cynnwys nwyddau a gwasanaethau sy'n symud o fewn y DU yn ogystal ag yn rhyngwladol. Trwy gymryd rhan, rydych yn helpu Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i ddeall masnach yng Nghymru yn well a bydd hyn, yn ei dro, yn gwella ei gymorth busnes ac ymyriadau eraill sy'n ymwneud â masnach.

**2. Pam mae fy nata i'n bwysig?**

Bydd canlyniadau Arolwg Masnach Cymru'n cael eu dadansoddi er mwyn galluogi i Lywodraeth Cymru ddod i ddeall yn well beth yw maint y fasnach sy'n dod i mewn ac yn mynd allan o Gymru. Er bod ffynonellau eraill o ddata masnach, mae'r canlyniadau o'r rhain yn cael eu cyfanredu i gategorïau eang, ac mae llawer o ddata'n cael ei ddosrannu ar sail y nifer o weithwyr cyflogedig y sefydliadau sydd yng Nghymru, felly nid yw'n sicr ei bod yn adlewyrchiad cywir o'r gweithgareddau busnes. Mae eich cyfranogaeth chi'n allweddol: bydd pob busnes sy'n cymryd rhan yn helpu i adeiladu darlun mwy cywir o fasnach yng Nghymru, a bydd hyn yn ei dro yn helpu i hysbysu'r penderfyniadau sy'n effeithio ar agweddau allweddol o'ch busnes, diwydiant ac economi Cymru.

Defnyddir y wybodaeth a gesglir i helpu i ddatblygu model o'r economi busnes yng Nghymru. Bydd hyn yn helpu i hysbysu safleoedd polisi a phenderfynu sut y mae gwasanaethau busnesau a chymorth arall yn cael eu darparu. Mae'r arolygon blaenorol wedi casglu data masnach penodol i Gymru ar gyfer 2017 – 2021; bydd data 2022 a rowch yn y bumed flwyddyn hon o'r arolwg yn helpu i wella amcangyfrifon y blynyddoedd blaenorol ac yn rhoi gwybod i ni sut mae'r darlun wedi newid. Bydd hyn yn caniatáu i ni, er enghraifft, wneud gwell asesiad o effeithiau tymor hir COVID-19 a'r Ymadawiad â'r UE. Bydd y wybodaeth a ddarparwch yn bwysicach nag erioed.

## Cwblhau eich arolwg

**3. Am ba wybodaeth mae'r arolwg yn gofyn?**

Mae'r arolwg yn gofyn i chi ddarparu data dim ond am weithredoedd (neu ganghennau) eich busnes sydd wedi eu seilio yng Nghymru. Yn gyntaf, mae'r arolwg yn gofyn am werth y gwerthiannau nwyddau a gwasanaethau a wnaed yn 2022, ac i ble y gwnaethpwyd y gwerthiannau hynny (Cymru / Gweddill y DU / Gweddill yr UE / Gweddill y Byd). Yna mae'n gofyn am werth y pryniannau a wnaed yn 2022, a lle gwnaed y pryniannau hynny (Cymru / Gweddill y DU / Gweddill yr UE / Gweddill y byd). Yn olaf, gofynnir nifer fechan o gwestiynau am eich profiad o gwblhau'r arolwg.

**4. Ydw i'n cael rhoi amcangyfrifon?**

Ydych. Er y byddai ffigur union gywir yn well, ond os na allwch ddarparu hyn o'ch system gyfrifo, gallwch gyflwyno amcangyfrif gwybodus.

**5. Data o ba flwyddyn ddylwn i ei ddarparu?**

Bydd yr arolwg yn gofyn am ddata 2022. Byddai'n well gennym gael data gennych ar gyfer y flwyddyn galendr (1 Ionawr 2022 - 31 Rhagfyr 2022). Os yw'n anodd i chi ganfod yr wybodaeth hon, rhowch ddata ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 os gwelwch yn dda.

**6. Beth sy'n digwydd os nad oes gen i ddata i'w adrodd?**
Hyd yn oed os nad oedd eich busnes wedi gwneud unrhyw werthiannau neu bryniannau rhwng 1af Ionawr 2022 a 31ain Rhagfyr 2022, cliciwch ar ddolen yr arolwg beth bynnag a nodwch y wybodaeth hon os gwelwch yn dda. Mae nodi sero dilys ar gyfer gwerthiannau a/neu bryniannau yr un mor ddilys ag unrhyw ffigur arall am ein bod yn mesur tueddiadau busnes.

**7. Nid wyf wedi fy lleoli yng Nghymru yn bennaf, a allaf gwblhau'r arolwg?**
Gallwch. Cyn belled â bod gennych weithrediadau sydd wedi'u seilio yng Nghymru, rydym am glywed gennych. Mae eich busnes yn dal yn gymwys ar gyfer yr arolwg os yw eich pencadlys y tu allan i Gymru.

**8. Mae fy musnes yn nwylo'r gweinyddwyr/derbynnydd — a fydda i'n dal i allu cwblhau'r holiadur?**
Byddwch. Mae busnesau sydd yn nwylo'r gweinyddwyr/derbynnydd yn dal i allu masnachu. Os nad ydych yn gallu cyflenwi'r wybodaeth byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi gwybod i ni beth yw enw a chyfeiriad y Gweinyddwr/Derbynnydd.

## Detholiad ar gyfer yr Arolwg Masnach i Gymru

**9. Sut cafodd fy musnes i ei ddewis?**
Cafodd eich busnes chi ei ddewis o gyfeiriadur busnes y DU (y Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau – IDBR) sy'n deillio o ffynonellau gweinyddol, gan gynnwys cofrestriadau Treth ar Werth (TAW) a Thalu wrth Ennill (TWE), wedi'u diweddaru gan ddata a gasglwyd o arolygon busnes y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Mae'r detholiad yn dibynnu ar nifer o wahanol ffactorau, yn cynnwys nifer y bobl yr ydych yn eu cyflogi, sawl busnes arall sy'n gweithredu yn eich diwydiant chi a maint y busnesau hynny.

## Gwybodaeth gyffredinol am yr arolwg

**10. Pwy yw IFF Research a sut allaf i gadarnhau bod hwn yn arolwg dilys gan Lywodraeth Cymru?**
- Mae IFF Research yn gwmni ymchwil i'r farchnad annibynnol sydd wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i weithredu Arolwg Masnach Cymru ar ei rhan. I gael rhagor o wybodaeth am yr arolwg, ewch i www.llyw.cymru/arolwg-masnach-cymru.
- Mae IFF Research yn gweithredu o dan ganllawiau tynn cod ymarfer y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad. Gallwch ddarllen rhagor ar: https://www.iffresearch.com/
- Os hoffech gadarnhau bod gan IFF yr awdurdod i gynnal yr arolwg hwn, cysylltwch â Dadansoddwyr Masnach Llywodraeth Cymru yn ystadegau.masnach@llyw.cymru.
- Opsiwn arall fyddai cysylltu â thîm cymorth yr Arolwg Masnach Cymru yn IFF Research ar 0300 0259 000 neu anfon e-bost i ArolwgMasnachCymru@iffresearch.com. Mae'r cysylltiadau hyn ar gael o Ddydd Llun i Ddydd Gwener, 9yb – 5yp.

**11. A fydd fy nata'n cael ei gadw'n gyfrinachol?**

Bydd. Bydd eich data'n cael ei drin fel data masnachol gyfrinachol yn unol â darpariaethau adran 39 y Ddeddf Ystadegau a'r Gwasanaethau Cofrestr 2007 (https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2007/18/section/39) a'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau (https://code.statisticsauthority.gov.uk/). Mae'n drosedd i Lywodraeth Cymru ddatgelu unrhyw fanylion yn ymwneud â busnes neu unigolyn. Ni fydd modd adnabod data busnes mewn unrhyw ystadegau a gyhoeddir.

Llythyr atgoffa: wedi'u cwpla'n cynt

IFF Research

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

[Contact]
[Company]
[Company2]
[Address line 1]
[Address line 2]
[Address line 3]
[Address line 4]
[Postcode]
[Date]

**Parhewch i'n helpu ni i wneud Cymru'n lle gwell i wneud busnes**

Annwyl [Contact2],

Diolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn Arolwg Masnach Cymru y llynedd.

**Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch atgoffa nad yw eich busnes wedi cwblhau'r arolwg eleni eto, a bod amser yn mynd yn brin i gyflwyno ymateb eich busnes.**

Rydym am i gynifer o fusnesau allu ymateb felly **rydym wedi ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r arolwg i Dydd Gwener 9fed Rhagfyr 2022** a byddem yn gwerthfawrogi'n fawr pe baech chi'n cyflwyno eich ymateb erbyn hynny.

## Pam ddylwn i gymryd rhan?

[IF emptband = 1-3: Trwy gymryd yr amser i gwblhau'r arolygon hyn, rydych yn darparu gwybodaeth bwysig a threiddgar am fasnach nad yw ar gael fel arall. [IF emptband = 4: Am eich bod yn fusnes mawr, mae eich cyfraniad yn hanfodol er mwyn i ni allu deall yn fanwl beth yw graddfa masnach Cymru, gan ddarparu gwybodaeth bwysig a threiddgar am fasnach nad yw ar gael fel arall.]

## Sut all fy musnes i gymryd rhan?

Gallwch agor yr arolwg drwy fynd i'r wefan hon a nodi'r cod mynediad sy'n unigryw i'ch busnes chi:

**Gwefan:** **Llyw.cymru/ArolwgMasnach**

**Cod mynediad: [ID]**

Mae'n debyg mai'r person gorau i gwblhau'r arolwg hwn yw'r [IF emptband = 1-3: rheolwr-gyfarwyddwr]. rheolwr/cyfarwyddwr cyllid, rheolwr cyllid neu'r adran cyfrifon rheolwyr] yn eich sefydliad; os nad chi yw hwn/hon, anfonwch yr arolwg ymlaen at yr unigolyn mwyaf priodol os gwelwch yn dda

Mae IFF Research yn cynnal yr arolwg hwn ar ein rhan. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â sut i lenwi'r arolwg:

- Ebostiwch: TSW@IFFResearch.com, neu
- Ffoniwch: 0300 0259 000.

Bydd data a chanfyddiadau allweddol o'r arolwg wedi eu cyhoeddi yn y fan yma yn 2023: https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil. Gallwch weld data o flynyddoedd blaenorol yr arolwg yma: https://llyw.cymru/arolwg-masnach-cymru

Yn gywir iawn,

Jonathan Price, Prif Economegydd
Llywodraeth Cymru

**Mae IFF Research yn gwarantu y bydd yr holl wybodaeth a ddarparwch yn yr arolwg hwn yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol**. Bydd yr arolwg yn cael ei weinyddu yn unol ag egwyddorion GDPR, Cod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil Marchnad, a phrotocolau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth. Bydd pob enw a'r holl fanylion cysylltu'n cael eu dileu o gofnodion IFF 3 mis ar ôl cwblhau'r arolwg hwn. Mae gennych hawl i gael copi o'ch data, newid eich data neu dynnu allan o'r gwaith ymchwil unrhyw bryd. Os hoffech wneud hynny, ewch i: iffresearch.com/gdpr. Gallwch hefyd ddarllen yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer yr arolwg hwn ar y wefan yn y blwch gwyrdd uchod.

## Llythyr atgoffa: ni wnaeth cwpla'n cynt

[Contact]
[Company]
[Company2]
[Address line 1]
[Address line 2]
[Address line 3]
[Postcode]
[Date]

**Help us make Wales a better place to do business**

Dear [Contact2],

**Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch atgoffa nad yw eich busnes wedi cwblhau'r arolwg eleni eto, a bod amser yn mynd yn brin i gyflwyno ymateb eich busnes.**

Rydym am i gynifer o fusnesau allu ymateb felly **rydym wedi ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r arolwg i Dydd Gwener 9fed Rhagfyr 2022** a byddem yn gwerthfawrogi'n fawr pe baech chi'n cyflwyno eich ymateb erbyn hynny.

### Pam ddylwn i gymryd rhan?

- Dylai'r arolwg gymryd llai na 25 munud i'w gwblhau.
- [IF emptband = 1-3: Byddwch yn helpu i ddarparu gwybodaeth bwysig a threiddgar am fasnach nad yw ar gael fel arall. [IF emptband = 4: Am eich bod yn fusnes mawr, mae eich cyfraniad yn hanfodol er mwyn i ni allu deall yn fanwl beth yw graddfa masnach Cymru, gan ddarparu gwybodaeth bwysig a threiddgar am fasnach nad yw ar gael fel arall.]
- Bydd y data a ddarparwch yn siapio polisïau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ac yn helpu i sicrhau bod busnesau Cymru'n gallu ffynnu a thyfu.
- Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn hynod o heriol. Po fwyaf o fusnesau sy'n cymryd rhan yn yr arolwg, y gorau y gallwn asesu effeithiau tymor hir COVID-19 a'r Ymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd.

### Sut all fy musnes i gymryd rhan?

**Gwefan: Llyw.cymru/ArolwgMasnach**

**Cod mynediad: [ID]**

Gallwch agor yr arolwg drwy fynd i'r wefan hon a nodi'r cod mynediad sy'n unigryw i'ch busnes chi:

Mae'n debyg mai'r person gorau i gwblhau'r arolwg hwn yw'r [IF emptband = 1-3: rheolwr-gyfarwyddwr]. rheolwr/cyfarwyddwr cyllid, rheolwr cyllid neu'r adran cyfrifon rheolwyr] yn eich sefydliad; os nad chi yw hwn/hon, anfonwch yr arolwg ymlaen at yr unigolyn mwyaf priodol os gwelwch yn dda

Mae IFF Research yn cynnal yr arolwg hwn ar ein rhan. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â sut i lenwi'r arolwg:

- Ebostiwch: TSW@IFFResearch.com, neu
- Ffoniwch: 0300 0259 000.

Bydd data a chanfyddiadau allweddol o'r arolwg wedi eu cyhoeddi yn y fan yma yn 2023: https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil. Gallwch weld data o flynyddoedd blaenorol yr arolwg yma: https://llyw.cymru/arolwg-masnach-cymru

Yn gywir iawn,

Jonathan Price, Prif Economegydd
Llywodraeth Cymru

**Mae IFF Research yn gwarantu y bydd yr holl wybodaeth a ddarparwch yn yr arolwg hwn yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol**. Bydd yr arolwg yn cael ei weinyddu yn unol ag egwyddorion GDPR, Cod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil Marchnad, a phrotocolau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth. Bydd pob enw a'r holl fanylion cysylltu'n cael eu dileu o gofnodion IFF 3 mis ar ôl cwblhau'r arolwg hwn. Mae gennych hawl i gael copi o'ch data, newid eich data neu dynnu allan o'r gwaith ymchwil unrhyw bryd. Os hoffech wneud hynny, ewch i: iffresearch.com/gdpr. Gallwch hefyd ddarllen yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer yr arolwg hwn ar y wefan yn y blwch gwyrdd uchod.